# Cymunedau Creadigol AHRC

Ymarferydd Arloesi Cymunedol Peilot

Papur Polisi

# Cymru

# Creu Lleoedd a Threftadaeth Gymunedol



Hydref 2024

**Commissioned by:**

Creative Communities

UKRI Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

# Cyd-destun Polisi

**Mae treftadaeth yng Nghymru mewn perygl.** Mae cynnydd mewn costau, gwaith i liniaru newid yn yr hinsawdd, toriadau yn y gyllideb o 30% yn y pedair blynedd hyd at 2018, a'r GDP gyda'r twf arafaf yn y DU yn golygu bod risg o fethu darparu adnoddau digonol ar gyfer y pethau sy'n rhoi balchder i ni yn lle rydym ni'n byw a phwy ydyn ni: ein hunaniaeth, ein lleoedd, a'n traddodiadau diwylliannol.

**Mae toriadau i wasanaethau treftadaeth yng Nghymru ers 2013 yn uwch na'r hyn a welwyd yng ngweddill y DU.** Ac eto, gall 'Treftadaeth' yn ei ystyr ehangaf wella pethau fel cydlyniant cymdeithasol, gweithredu cymunedol, sgiliau a hyfforddiant, balchder dinesig, ymlyniad lle, heneiddio arloesol, cydweithio rhwng cenedlaethau, a chwricwlwm Cynefin, yn ogystal ag atal unigrwydd, a mynd i'r afael â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol. Gall gwasanaeth treftadaeth sy'n sicrhau budd cyhoeddus gynnig llwybr thematig ac ymarferol i gyflawni o leiaf bedwar o'r saith nod llesiant sydd wedi'u hymgorffori yn ***Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***.

**Mae angen i gyd-greu gyda chymunedau fod wrth wraidd y ffordd rydym ni'n mynd i'r afael â'r her hon.** Ar hyn o bryd, mae ein gwasanaethau amgylchedd hanesyddol wedi'u strwythuro'n bennaf i fonitro, rheoli a chynnal yr amgylchedd adeiledig. Ychwanegiad yn unig yw ymgysylltu â'r gymuned. Ac eto, drwy beidio â bod yn fwy rhagweithiol wrth ennyn cyfranogiad ar bob lefel, nid ydym yn llwyddo i wneud ein hasedau treftadaeth adeiledig yn ystyrlon, na defnyddio'r cyfoeth adnoddau gwirfoddolwyr, na meithrin angerdd am ein gorffennol ymhlith y genhedlaeth nesaf. Y risg hanfodol yw bod asedau treftadaeth yn dod yn faich ynysig ar y wlad yn hytrach nag yn asedau diwylliannol gwerthfawr mewn strategaethau creu lleoedd sy'n meithrin cadernid a chydlyniant.

# Argymhellion

## Gwrthdroi, Ailystyried, Diwygio.

### Gwrthwneud Toriad Cyllid i Wasanaethau Treftadaeth Yng Nghymru

Canfu astudiaeth yn 2018, pan fo niferoedd y boblogaeth yn cael eu mynegeio yn erbyn cyllid llywodraeth ddatganoledig ar gyfer gwasanaethau amgylchedd treftadaeth statudol, fod £15.67 yn cael ei wario *y pen* yn yr Alban o'i gymharu â £7.55 yng Nghymru. Mae toriadau arfaethedig diweddar i gyllid gwasanaethau treftadaeth yng Nghymru wedi codi amheuaeth ynghylch maint y ddarpariaeth bresennol ac wedi rhoi gwasanaethau statudol hanfodol mewn perygl. Mae mantra 'amddiffyn' wedi deillio o'r sefyllfa hon, gan flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw dros yr union resymau pam ein bod yn gwarchod treftadaeth yn y lle cyntaf – pobl a chymunedau.

Un o ofynion canolog yr argymhelliad polisi hwn yw ein bod yn **gwrthdroi diwylliant yng Nghymru lle mae treftadaeth yn cael ei hystyried yn faich yn hytrach na chyfle**. Wrth ystyried y ffrwd gyllido ar gyfer yr argymhelliad hwn: **beth am symud arian yn ôl o ofal iechyd adferol tuag at weithgareddau sy'n atal problemau iechyd yn y lle cyntaf** a chydnabod bod y llwybr tuag at gyflawni hyn â'i wreiddiau mewn ymrwymiadau sy'n seiliedig ar leoedd lle mae treftadaeth, perthyn a hunaniaeth yn elfennau hanfodol

### Ailystryied Gwerth Treftadaeth ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyofodol

Bydd angen datblygu rhagolygon, sgiliau a syniadau newydd mewn ymarfer meithrin gallu parhaus ar draws y sector, gan ddatblygu timau o ymarferwyr sy'n cael eu dysgu sut i reoli, cynnal a monitro ond hefyd sut i gyfleu gwerth mewn treftadaeth a datgloi ei botensial er budd y cyhoedd yn y meysydd a amlinellir isod. Byddai asiantaeth newydd – gyda staff â chylch gwaith eang ac ystwyth o sgiliau – yn rhoi hyder i fuddsoddi er mwyn dod â gwariant *y pen* ar dreftadaeth yng Nghymru i'r un lefelau â'r hyn sy'n cael ei fwynhau yn yr Alban a Lloegr. **Ni ddylid tanseilio gwerth treftadaeth cymunedau Cymru i'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw yn lleol ac yn rhanbarthol, nac ychwaith iechyd a lles pobl Cymru yn y dyfodol.**

### Diwygio Gwasanaethau Treftadaeth yng Nghymru

Mae cynaliadwyedd sector gwasanaethau treftadaeth Cymru yn dibynnu ar ddiwygiadau sydd wedi'u dylunio i ddarparu datblygiadau arloesol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol. **Mae angen un asiantaeth Creu Lle/Treftadaeth Gymunedol i ymgysylltu a chymryd rhan mewn treftadaeth**, nid fel ychwanegiad at y gwaith rheoli, monitro a chadwraeth presennol sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan wasanaethau amgylchedd hanesyddol, ond fel y fframwaith sylfaenol ar gyfer gweithredu ym maes treftadaeth. Nid oes angen ailddyfeisio'r olwyn – mae gan **Heneb y seilwaith cyflenwi** sydd ei angen i fod yn gartref i'r asiantaeth hon. Fodd bynnag, er mwyn cael gwared ar y diffyg eglurder a'r gwrthdaro presennol rhwng buddiannau o ran lle mae treftadaeth gymunedol a budd cyhoeddus yn eistedd, **mae angen torri'r cysylltiad rhwng gweithgarwch masnachol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru a'u rolau statudol ac elusennol.**

Byddai **swyddogaethau'r** asiantaeth newydd hon o fewn fframwaith Heneb **yn cael eu cysylltu i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** gan arwain at sector gwasanaethau treftadaeth sy'n seiliedig ar **weledigaeth flaengar ar gyfer Cymru** ac nid un sy'n olrhain ei gwreiddiau i egwyddorion cadwraeth o ddechrau'r ugeinfed ganrif sy'n deillio o gyd-destun Seisnig i raddau helaeth.

Gan weithredu fel cyfryngwr, hwylusydd a chyd-grëwr, byddai'r asiantaeth yn gallu cysylltu naratif treftadaeth yn well â phryderon lleol, gan ddarparu gwerth lleol ystyrlon a meithrin gwell ymlyniad at le. Lle mae gweithgarwch cyfranogol cymdeithasol yn isel, gall yr asiantaeth ymyrryd drwy blannu 'hadau' gweithgareddau, a lle mae sgiliau ac arbenigedd yn brin, gellir darparu fframwaith ar gyfer llwybrau achrededig sy'n seiliedig ar le ar gyfer gwaith rheoli, stiwardiaeth a chyfathrebu. Bydd hyn yn ei dro yn helpu grwpiau cymunedol i ddeall gofynion statudol wrth reoli'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, egwyddorion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a llwybrau at Sero Net, ac i gynnwys cynllunio olyniaeth yn eu gwaith i ddatblygu cryfder mewn Cymru gryfach a mwy cydlynol.

Gan feithrin cydweithrediad agos gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac adeiladu ar gryfderau'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, byddai'r asiantaeth yn darparu llwybr wedi'i greu ar y cyd i grwpiau cymunedol i wella gweithgarwch, recriwtio a stiwardiaeth asedau treftadaeth.

O'r cychwyn cyntaf, drwy gydol y broses ddatblygu i'r cyflwyno a'r gweithredu, gall yr asiantaeth hon weithredu fel y sgaffald y gellir ei ddefnyddio i gyflwyno rhaglenni cymdeithasol eraill, mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, cyfeirio presgripsiynau cymdeithasol, ymgorffori rhaglenni datblygu sgiliau ar gyfer pobl ifanc, a chynnig darpariaeth addysgol amgen lle mae'r brif ffrwd yn methu.

Gall yr asiantaeth hon gefnogi ymyriadau cymunedol lleol mewn asedau a straeon treftadaeth a gall cydweithio ag artistiaid

creadigol lleol arwain at allbynnau ac adnoddau ar gyfer mentrau Cynefin ar lefelau CA2 a CA3 i ysgogi mwy o ymgysylltu dinesig a gwella ymlyniad lle ymhlith pobl ifanc.

Wedi'i ddyfeisio ar y cyd ag arbenigedd yn y sector, byddai **Cytundeb Treftadaeth Gymunedol** yn ei gwneud yn ofynnol – ar ôl bodloni rhestr o safonau – i awdurdodau lleol a chyrff treftadaeth statudol fod o dan rwymedigaeth i gydnabod a gweithredu ar agendâu treftadaeth a yrrir gan y gymuned, ac i deilwra cyllid ac adnoddau i gefnogi cymunedau i gyflawni eu huchelgais. Byddai'r cytundeb yn rhoi hyder i brosesau trosglwyddo asedau cymunedol ac yn rhoi mwy o bŵer stiwardiaeth yn nwylo'r gymuned.

Byddai'r asiantaeth yn rhoi mwy o bŵer i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn prosesau cynllunio defnydd o dir a chreu lleoedd ac yn ei helpu i gyflawni ei Gweledigaeth ar gyfer Cymru yn 2050. Byddai'n sicrhau bod mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith o'r cychwyn cyntaf fel bod datblygwyr corfforaethol a masnachol sy'n ymwneud â phrosiectau creu lleoedd ac 'adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth' yn neilltuo adnoddau i gydgynhyrchu'n briodol ac yn ystyrlon gyda chymunedau a'u hymgorffori'n ddigonol y tu hwnt i rôl ymgyngoreion goddefol (yn enwedig pan fydd arian cyhoeddus wedi cael ei ddefnyddio fel lifer). Byddai'r asiantaeth newydd hon o fewn Heneb yn mynd ati'n uniongyrchol i gyfrannu at y dasg o gyflawni nodau canlynol **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**:

- **Cymru Gydnerth**
- **Cymru Iachach**
- **Cymru o Gymunedau Cydlynus**
- **Cymru â Diwylliant Bywiog**

Mae'n hanfodol ein bod yn osgoi'r system hynod bresennol lle mae darparu budd cyhoeddus sy'n deillio o dreftadaeth drwy brosiectau seilwaith a arweinir gan ddatblygwyr a strategaethau creu lleoedd yn dibynnu ar gymhellion mewnol y datblygwr, a gofynion y gallai awdurdodau lleol ac ymgynghorwyr eu pennu (neu beidio) mewn briffiau tendro. Y peth allweddol yma yw, wrth ddyfeisio gweledigaethau wedi'u cyd-greu ar gyfer treftadaeth i'n pobl a'n lleoedd, gall yr asiantaeth hon 'sicrhau mwy o ddylanwad yn uwch yn y gadwyn gyflenwi', gan roi pobl, yn hytrach nag elw, yn gyntaf.

# Cyd-destun Datganoledig

Fel cam cyntaf uniongyrchol, dylai **Grŵp Cyflawni ar Drawsnewid Gwasanaethau Treftadaeth** (tebyg i'r Grŵp Cyflawni ar Drawsnewid Gwasanaethau Plant) **gael ei gomisiynu** gan y Senedd.

Mae gan Gymru'r strwythurau hanfodol ar gyfer cyflawni'r argymhelliad hwn. Yn unigryw yn y DU, mae'n gweithredu'r corff hyd braich – Heneb – sef Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru wedi eu huno; partner cyflawni a allai fod yn arloesol. Dyma gyfle i dyfu sector treftadaeth lle mae gwerth cymunedol a budd cyhoeddus wrth galon ei waith. Mae Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (2023) sy'n newydd ac yn arloesol, yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau partneriaeth a gwarcheidiaeth sy'n cynnig potensial ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol dan reolaeth. Blaenoriaeth gyntaf yr Asesiad Gwerthusioldeb o'r Strategaeth Cysylltu Cymunedau yn ddiweddar oedd cynyddu'r cyfleoedd i bobl gysylltu drwy weithgareddau '*ffisegol* (fi sydd wedi defnyddio llythrennau italig) gwirfoddoli, diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau'. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn darparu fframwaith arloesol y gall cymunedau a'r gyfarwyddiaeth gynllunio ei ddefnyddio i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ond, yn yr un modd â 'treftadaeth' fel thema, mae'r argymhelliad hwn hefyd yn berthnasol i amrywiaeth o sectorau a briffiau gweinidogol. Fel y brif ddeddfwriaeth sy'n sail i'r argymhelliad, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r egwyddorion arweiniol hanfodol, gan wneud swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sbardun allweddol. Byddai gwaith meddwl ar y cyd rhwng Ysgrifenyddion y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Tai, Llywodraeth Leol a Chynllunio yn cyfrannu rhywfaint at sicrhau bod ein treftadaeth wedi'i lleoli'n fwy cadarn wrth galon Llywodraeth Cymru, yn barod i gyflawni ei nodau ar gyfer **bywiogrwydd diwylliannol, canlyniadau iechyd gwell, cymunedau cydlynol a mwy o wytnwch cymdeithasol** erbyn 2050.

Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

Cysylltwch â'r CIP:

Alexander Langlands, Prifysgol Abertawe | a.j.langlands@swansea.ac.uk

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.

Creative Communities

Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE